


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Gwybodaeth i ymwelwyr ag awtistiaeth: Tŷ Hywel

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Os oes angen copi o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch Cyfathrebu'r Cynulliad:

**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **Cyfathrebu@cynulliad.cymru**

Ffôn: **0845 010 5500 / 01492 523 200**

Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun. I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, dylech alw'r rhif a ganlyn: **18001 0845 010 5500**.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Gwybodaeth i ymwelwyr ag awtistiaeth: Tŷ Hywel

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Ymweld â Thŷ Hywel

Tŷ Hywel yw'r adeilad lle mae Aelodau'r Cynulliad a staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio. Gallwch ond dod i'r adeilad hwn os ydych wedi cael eich gwahodd i gyfarfod neu ddigwyddiad.



Mae'r  fynedfa ar gornel Stryd Pierhead a Phlas Bute. Mae 'Tŷ Hywel' wedi ei farcio'n glir ar y ddwy ochr i'r adeilad. Mae baneri y tu allan i'r adeilad a all wneud sŵn mawr ar ddiwrnod gwyntog.

Mae grisiau a rampiau yn arwain at y fynedfa. Byddwch yn mynd i mewn i'r adeilad drwy un o ddau ddrws awtomatig mawr - does dim ots pa ddrws a ddefnyddiwch. Gall fod peth oedi cyn i'r drysau agor. Efallai y byddwch yn gweld pobl yn mynd i mewn drwy'r drws ar yr ochr arall i'r fynedfa. Mae hwn yn brif allanfa hefyd, felly efallai y bydd pobl yn mynd allan drwy'r drws wrth i chi fynd i mewn.

## Cyrraedd



Byddwch yn cerdded drwy gyntedd bach i mewn i gyntedd mawr sydd wedi'i oleuo'n naturiol. Gall y cyntedd fod yn lle prysur a swnllyd. Bydd staff sydd â lifrai yno i helpu gydag unrhyw gwestiynau sydd gennych. Efallai y bydd swyddog yr heddlu yno hefyd.



Dylech roi gwybod i'r dderbynfa, sydd ar y chwith wrth i chi fynd i mewn i'r adeilad ac wedi'i nodi'n glir ag arwydd, eich bod wedi cyrraedd. Gall y dderbynfa fod yn brysur, felly efallai y bydd ciw. Rhowch wybod i aelod o'n staff os gallech chi neu rywun yn eich grŵp ddioddef anghysur neu straen wrth orfod ciwio.

Mae staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Byddant yn gofyn am eich enw ac enw'r person rydych yno i'w weld neu'r digwyddiad yr ydych yn mynd iddo. Efallai y bydd yn rhaid i chi aros tra bod staff y dderbynfa yn cysylltu â'r person rydych yma i'w gyfarfod i ddweud wrtho eich bod wedi cyrraedd.

Bydd staff y dderbynfa yn rhoi tocyn ymwelydd i chi, y dylid ei wisgo o gwmpas eich gwddf ac y dylid gallu ei weld yn glir bob amser. Bydd y Dderbynfa yn eich cyfeirio at yr ardal ddiogelwch.


Os oes angen lle tawel arnoch, gallwch siarad ag aelod o staff y dderbynfa i nodi lleoliad priodol i orffwys ac ymlacio rhywfaint.

Mae system ddolen ar gael yn y dderbynfa.

## Diogelwch

Mae’n rhaid i chi fynd drwy archwiliad diogelwch. Mae’r ardal diogelwch yn fan swnllyd sy’n gallu mynd yn brysur ac yn aml bydd yn ofynnol i giwio yno. Dylech ganiatáu digon o amser i fynd drwy’r gwiriadau diogelwch.

Os ydych chi, neu rywun yn eich grŵp, ar y sbectrwm awtistiaeth ac yn ei chael yn anodd ciwio, gofynnwch i siarad â staff diogelwch a all drefnu eich bod yn mynd drwy’r archwiliad diogelwch yn gyflym. Fel arall, cysylltwch â’r llinell archebu cyn eich ymweliad, ar 0845 010 5500 neu 01492 523 200, a threfnu i siarad â hyrwyddwr awtistiaeth.



Bydd y rhan fwyaf o’r staff diogelwch wedi cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth.

Rhaid i chi ddilyn cyfarwyddiadau’r staff diogelwch. Gofynnir i chi roi eich bagiau drwy beiriant pelydr-x a chyda phob eitem o ddeunydd metel a thrydanol - allweddi, darnau arian, camerâu, gliniaduron, dyfeisiau tabled, ffonau symudol ac ati, rhaid eu tynnu o’ch pocedi a’u rhoi yn eich bag neu mewn hambwrdd a ddarperir. Byddwn hefyd yn gofyn i chi dynnu eich côt, ac efallai y bydd gofyn i chi dynnu eich gwregys os ydych yn gwisgo un.

Dychwelir eich eitemau i chi ar yr ochr arall i’r peiriant.



Bydd yn ofynnol i chi gerdded drwy fwa datgelu metel sy'n gwneud sŵn os bydd yn darganfod rhywbeth metel. Os digwydd hynny, bydd staff yn defnyddio canfodydd a gaiff ei ddal â llaw, ac yn symud o gwmpas eich corff i gael gwybod beth sydd wedi achosi i'r larwm seinio. Ni ddylai'r synhwyrydd gyffwrdd eich corff. Bydd y canfodydd yn gwneud sŵn i ddangos yr hyn sydd wedi achosi i'r larwm seinio. Yn aml bydd oriawr neu fetel bwcl gwregys wedi achosi i'r larwm seinio.

Os ydych chi, neu rywun yn eich grŵp, ar y sbectrwm awtistiaeth ac yn anghyfforddus gyda sŵn uchel, neu sŵn traw-uchel, siaradwch â'r staff diogelwch, a all drefnu i oleuni yn hytrach na sain gael ei weithredu pan gaiff rhywbeth metel ei ganfod.

Caiff unrhyw eitemau gwaharddedig eu cadw gan y staff Diogelwch ac, yn dibynnu ar yr eitem, bydd fel arfer yn cael ei ddychwelyd i chi ar ddiwedd eich ymweliad. Mae eitemau gwaharddedig yn cynnwys cyllyll neu wrthrychau miniog neu lafnog arall, unrhyw roced, tân gwyllt neu ffrwydron ac unrhyw ddryll tanio neu ddryll ffug.

Cewch eich cyfeirio at y man aros y tu ôl i ddesg y dderbynfa.

## Y Neuadd



Mae'r Neuadd yn ardal fawr a ddefnyddir gan y cyhoedd, i aros cyn eu bod yn cael eu cymryd i rannau eraill o'r adeilad. Mae mannau a ddefnyddir gan staff yn unig wedi'u marcio gyda'r geiriau "deiliaid Tocyn yn unig" a dim ond aelod o staff a gaiff fynediad drwy ddefnyddio cerdyn. Peidiwch â cheisio mynd i mewn i'r mannau hyn, oni bai eich bod gydag aelod o staff.

Ar ddiwrnodau llachar gall fod newid yn y goleuni wrth i chi fynd i mewn i'r Neuadd wrth i'r golau newid o olau naturiol i olau artiffisial yn bennaf

Wrth fynd i mewn i'r Neuadd mae yna nifer o opsiynau ar gael:

**1. Y man aros**




Mae'r Man Aros y tu ôl i'r dderbynfa. Mae seddi ac amrywiaeth o wybodaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael yn yr ardal hon. Dylech ddisgwyl sŵn cefndir gan y teledu a leolir yma. Bydd aelod o staff yn dod i'ch casglu oddi yma.

**2. Yr Ystafelloedd Cyfarfod**

Mae dwy ystafell gyfarfod i'r chwith o'r Neuadd. Efallai y byddwch yn gweld pobl yn mynd i mewn ac allan o'r ystafelloedd hyn.

**3. Toiledau**



Mae toiledau ar ochr dde y Neuadd, gan gynnwys toiled hygyrch i bawb. Mae toiled hygyrch mwy o faint ar gael ar gais. Rhowch wybod i aelod o staff mewn lifrai y byddai'n well gennych ddefnyddio hwn.

**4. Y Man Gweithgareddau**



Mae byrddau a chadeiriau ym mhen pellaf y Neuadd, y tu allan i Siambr Hywel, siambr drafod bwrpasol y Cynulliad ar gyfer pobl ifanc.

Dylech fod yn ymwybodol bod grwpiau ysgolion yn cyfarfod yma cyn mynd i mewn i Siambr Hywel, ac i gael cinio. Gall y Neuadd fynd yn brysur iawn ac yn swnllyd yn ystod y cyfnodau hyn. Yn ystod y tymor, bydd y Cynulliad yn cynnig tri ymweliad addysg y dydd ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau yn ystod y slotiau amser hyn: 10.00 - 12.00, 11.00-13.00, 13.00-14.30, (13.00-15.00 ar ddydd Iau). Efallai y byddwch am osgoi'r ardal yn ystod y cyfnodau hyn.

I gael mwy o wybodaeth ac i gysylltu â'r tîm archebu ffoniwch 01492 523 200 neu e-bostiwch **archebu@cymru.gov.uk**. Mae mwy o wybodaeth am ymweliadau addysg â'r Cynulliad, gan gynnwys sut i archebu, ar gael gan ein llinell wybodaeth ar 0845 010 5500.

**5. Siambr Hywel**



Mae Siambr Hywel yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf gan ein gwasanaeth addysg i ddarparu rhaglenni addysg wedi'i deilwra, yn rhad ac am ddim i ysgolion a cholegau.

Mae'r ystafell hon yn agored i bobl sydd wedi cael eu gwahodd i fynychu digwyddiad yn unig.

Byddwch yn mynd i mewn i Siambr Hywel naill ai drwy'r drysau mawr neu drwy goridor, ac mae'r ddau wedi'u lleoli ym mhen pellaf y Neuadd. Bydd aelod o staff yn dweud wrthych pa ffordd i fynd. Efallai y bydd newid sydyn yn y golau wrth i chi fynd i mewn i'r ystafell.

Mae Siambr Hywel yn lle mawr gyda rhesi o seddau, pob un â'i sgrîn a botymau y mae ymwelwyr yn cael eu defnyddio yn ystod dadl ffug a drefnwyd.

Mae system dolen yn yr ystafell.

## Digwyddiadau neu gyfarfodydd eraill yn Nhŷ Hywel

Os ydych yn dod ar gyfer digwyddiad yn Nhŷ Hywel, byddwch yn cael eich tywys o'r Neuadd, heibio i'r dderbynfa ac yn ôl i'r cyntedd. Byddwch naill ai'n cael eich cludo i'r man digwyddiadau ar y llawr gwaelod neu i'r llawr cyntaf.

**1. Ar y llawr gwaelod**

Byddwch yn cael eich tywys heibio drysau awtomatig ar yr ochr chwith ichi, a giatiau tro ar y dde. Mae hon yn ardal brysur. Byddwch yn symud drwy ddrysau awtomatig i mewn i goridor. Dylech ddisgwyl peth oedi wrth i'r drysau agor. Gallwch hefyd ddisgwyl clywed sŵn wrth i'r drws yn agor. Wrth i chi fynd i mewn i'r coridor gall fod newid yn y goleuni.

Mae amryw o ystafelloedd yn arwain oddi ar y coridor. Nid yw pob un o'r ystafelloedd hyn ar gael i'r cyhoedd. Peidiwch â cheisio mynd i mewn i unrhyw fannau cyfyngedig oni bai bod aelod o staff gyda chi. Mae ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd digwyddiadau ar hyd yr ochr dde i'r coridor. Mae hwn yn goridor canolog a gall fod yn brysur iawn

**2. Ar y llawr cyntaf**

Bydd angen i chi gael eich tywys gan aelod o staff i gael mynediad i'r llawr cyntaf. Byddwch yn cael mynediad i'r llawr cyntaf drwy fynd i mewn drwy ddrysau awtomatig yn union gyferbyn â'r giatiau tro. Gall aelod o staff â lifrai ddal y drws yn agored i chi a'ch cyfarch yn Gymraeg a Saesneg. Wrth fynd drwy'r drws efallai y byddwch yn gweld newid yn lefel y golau. Byddwch yn mynd i mewn i ardal sydd â mynediad i doiledau, lifftiau a grisiau. Mae hon yn ardal ganolog a gall fod yn brysur iawn. Gallwch fynd i fyny i'r llawr cyntaf gan ddefnyddio'r lifft neu'r grisiau.

Unwaith y byddwch ar y llawr cyntaf, byddwch yn gadael y lifft neu'r grisiau ac yn mynd i mewn i ardal ble mae toiledau, lifftiau a grisiau. Gall yr ardal hon fod yn brysur iawn. Yna byddwch yn cael eich tywys drwy ddrws sy'n arwain at falconi. Os ydych yn sensitif i uchelfannau, efallai na fyddwch yn gyfforddus yn edrych dros y balconi. I gael mynediad i'r mannau digwyddiadau ar y llawr cyntaf, byddwch yn mynd drwy ddrysau awtomatig ac yn mynd i mewn i goridor prysur sydd â mynediad at ffreutur y staff, yn ogystal â'r ystafelloedd cyfarfod. Mae'r coridor yn brysur ac yn swnllyd iawn ar adegau. Gallwch hefyd ddisgwyl arogli bwyd yn cael ei goginio.

Efallai y byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfarfod mewn man arall yn yr adeilad. Bydd angen i chi gael eich tywys gan aelod o staff i gael mynediad at leoliad y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofod digwyddiadau/ cyfarfodydd penodol y byddwch yn ymweld ag ef, cysylltwch â'n llinell wybodaeth ar 08450105500 neu 01492523200, a threfnu i siarad â hyrwyddwr awtistiaeth.

## Materion synhwyraidd penodol sy'n gysylltiedig â Thŷ Hywel

Gall ymwelwyr sydd ar y sbectrwm awtistiaeth deimlo bod y synau sydyn canlynol yn achosi straen iddynt:

- Profir y larwm tân yn Nhŷ Hywel bob dydd Llun am 9.00. Os bydd y larwm yn canu ar unrhyw adeg arall, bydd aelod o staff yn dweud wrthych beth i'w wneud. Os ydych yn sensitif iawn i sain, efallai y byddwch am gynllunio eich ymweliad er mwyn osgoi'r prawf larwm tân.
- Pan fydd y Cynulliad yn eistedd ar ddydd Mawrth a dydd Mercher gallwch ddisgwyl clywed sŵn y gloch Galwad i'r Cyfarfod Llawn am 13.25 a 13.30 i alw Aelodau i'r Siambr i bleidleisio. Os ydych yn sensitif iawn i sain efallai y byddwch am gynllunio eich ymweliad i osgoi'r gloch Galwad i'r Cyfarfod Llawn.